# Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim

# Ymateb Cychwynnol yr Awdurdod, sy'n ymdrin â chynigion sydd i'w rhoi ar waith yn 2025

Ymateb ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon

Tachwedd 2024

© Hawlfraint y Goron 2024

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 y Drwydded Llywodraeth Agored oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3, ysgrifennwch at y tîm canlynol: The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch ebost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn:
emissions.trading@energysecurity.gov.uk

# Cynnwys


Cyflwyniad 4

Ymateb yr Awdurdod 6

Newid Technegol Un: Trin terfyniadau parhaol 6

Crynodeb o'r cynnig 6

Crynodeb o'r ymatebion 7

Ymateb yr Awdurdod 7

Newid Technegol Dau: Diweddaru'r diffiniad o derfyniadau parhaol 11

Crynodeb o'r cynnig 11

Crynodeb o'r ymatebion 12

Ymateb yr Awdurdod 12

Atodiad Dadansoddol 13

Tystiolaeth feintiol: ffigurau ynghylch nifer y gosodiadau a gaeodd 13

Disgrifiadau technegol o'r opsiynau 14

Newid technegol un: trin terfyniadau parhaol 14

Newid technegol dau: diweddaru'r diffiniad o derfyniadau parhaol 15

Asesiad ansoddol o'r gwahanol opsiynau 16


Newid technegol un: trin terfyniadau parhaol 16

Newid technegol dau: diweddaru'r diffiniad o derfyniadau parhaol 17

# Cyflwyniad

Dyrannu lwfansau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU am ddim yw'r prif offeryn polisi a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y DU i fynd i'r afael â'r risg o ddadleoli carbon. Mae darparu lwfansau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU am ddim yn golygu bod angen i weithredwr brynu llai o lwfansau i ymdrin â'i allyriadau, gan leihau i bob pwrpas y pris carbon y mae'n ei dalu a lliniaru'r risg o ddadleoli carbon. Cynhelir y cymhelliant i ddatgarboneiddio oherwydd, yn gyffredinol, mae derbynwyr dyraniadau am ddim sy'n datgarboneiddio yn cadw unrhyw ddyraniadau am ddim sydd dros ben[1]. Yna, gallant werthu'r rhain i'r farchnad eilaidd er eu budd nhw.

Caiff dyraniadau am ddim eu cyfrifo gan ddefnyddio'r hafaliad canlynol:




**Ffigur 1 Diagram sy'n dangos sut y caiff dyraniadau am ddim eu cyfrifo**

Roedd ein dull presennol o ymdrin â dyraniadau am ddim ar gyfer gosodiadau sefydlog dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn blaenoriaethu parhad i weithredwyr, ac i raddau helaeth roedd yn parhau i ddefnyddio methodoleg Cam IV System Masnachu Allyriadau'r UE. Lansiodd yr Awdurdod adolygiad o bolisi dyraniadau am ddim yn 2021 gyda chais am dystiolaeth[2]. Bwriad hynny oedd sicrhau bod polisi dyraniadau am ddim yn gweithio'n effeithiol yng nghyd-destun y DU er mwyn cymell camau i leihau allyriadau ac er mwyn gwarchod diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni, ac sy'n agored i fasnach, rhag y risg o ddadleoli carbon. Rydym wedi cynnal yr adolygiad hwn fesul cam:

[1] Mae'r broses hon yn gweithio'n wahanol ar gyfer sectorau sy'n symud i feincnod newydd.

[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/60507ae48fa8f505bfdac4d6/uk-ets-call-for-evidence.pdf

- Bu'r cam cyntaf yn canolbwyntio ar y gyfran o ddyraniadau am ddim dan y cap, a oedd ar gael i'w rhoi am ddim[3].
- Bu'r ail gam yn canolbwyntio ar y fethodoleg ar gyfer cyfrifo, a dosbarthu, dyraniadau am ddim.

Ym mis Rhagfyr 2023[4] bu'r Awdurdod, yn rhan o'r 'ail gam', yn ymgynghori ynghylch newidiadau i'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo dyraniadau am ddim er mwyn targedu cymorth yn well at sectorau a oedd yn wynebu'r risg fwyaf o ddadleoli carbon. Roedd yr ymgynghoriad hwnnw'n cynnwys cynigion ynghylch ein dull o drin gweithgarwch ac allyriadau, meincnodau, y risg o ddadleoli carbon, methodolegau ychwanegol i roi cyfrif am fynediad i dechnolegau datgarboneiddio, ac ystyriaeth i gyflwyno amodoldeb yn ogystal â nifer o newidiadau technegol i reolau ynghylch dyraniadau am ddim.

Bwriedir i nifer fach o'r newidiadau technegol a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr gael eu gweithredu yn 2025. Oherwydd hynny, rydym yn darparu ymateb cynnar ynghylch y cynigion hynny er mwyn egluro'r safbwyntiau terfynol i randdeiliaid cyn bod y safbwyntiau hynny'n dod i fod. Byddwn yn ymateb yn llawn maes o law i weddill y cynigion a oedd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r ymatebion a gafwyd a phenderfyniadau'r Awdurdod ynghylch y cynigion canlynol:

- Newid Technegol Un: Trin terfyniadau parhaol
- Newid Technegol Dau: Diweddaru'r diffiniad o derfyniad parhaol

Cawsom gyfanswm o 40 o ymatebion i'r cynigion yr ymdrinnir â nhw yn yr ymateb hwn gan yr Awdurdod. Ymhlith yr ymatebion hynny yr oedd rhai gan amrywiaeth o randdeiliaid a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid o faes diwydiant, cymdeithasau masnach, y sector trydan a chyrff anllywodraethol.

Mae atodiad dadansoddol wedi'i gynnwys yn rhan o'r ymateb hwn. Yn yr atodiad ceir gwybodaeth am waith dadansoddi a ddefnyddiwyd i gefnogi safbwyntiau terfynol sy'n ymwneud â rheolau wedi'u diweddaru ynghylch dyraniadau am ddim ar gyfer terfyniadau parhaol.

---

[3] Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, https://assets.publishing.service.gov.uk/media/624ec32ed3bf7f5fff335809/developing-the-uk-ets-consultation-welsh.pdf, cyhoeddwyd ar 25 Mawrth 2022

[4] Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim, https://assets.publishing.service.gov.uk/media/657c9ce91c0c2a001318ce7b/uk-ets-free-allocation-review-consultation-welsh.pdf, cyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2023

# Ymateb yr Awdurdod

## Newid Technegol Un: Trin terfyniadau parhaol

Ym mis Rhagfyr 2023 cynigiodd Ymgynghoriad yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim newid y modd y caiff lwfansau am ddim eu trin yn ystod y flwyddyn olaf o weithgarwch yn achos terfyniadau parhaol, lle byddai hawl gweithredwyr i lwfansau am ddim yn ystod y flwyddyn olaf o weithredu'n seiliedig ar lefelau gweithgarwch gwirioneddol.

### Crynodeb o'r cynnig

Dan y rheolau presennol, mewn achosion lle caiff gweithgarwch ei derfynu'n barhaol, ni chaiff lwfansau am ddim eu dosbarthu mwyach yn ystod y flwyddyn ar ôl i weithgarwch ddod i ben[5]. Caiff hynny ei amlinellu yn Erthygl 26 y Rheoliad ynghylch Dyraniadau am Ddim[6]. Fodd bynnag, mae gweithredwyr yn cadw'r lwfansau am ddim yr oedd ganddynt hawl iddynt yn ystod y flwyddyn olaf yr oeddent yn gweithredu ynddi. Y rheswm am hynny yw bod gweithredwyr yn parhau'n agored i'r pris carbon yn ystod y flwyddyn olaf o weithgarwch, ac y byddant felly'n dal i wynebu risg o ddadleoli carbon y mae'n rhaid ei lliniaru.

Fodd bynnag, gall rheolau presennol ynghylch terfyniadau parhaol olygu bod rhai gweithredwyr yn cael mwy o lwfansau am ddim yn ystod y flwyddyn olaf o weithgarwch nag sydd eu hangen arnynt i liniaru'n ddigonol eu risg o ddadleoli carbon, ac mewn rhai achosion gall y rheolau olygu eu bod yn cael lwfansau am ddim sy'n fwy na'r allyriadau y maent yn adrodd yn eu cylch.

Cynigiodd yr Awdurdod newid i'r rheolau hyn, lle byddai hawl gweithredwyr i lwfansau am ddim yn ystod y flwyddyn olaf yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch gwirioneddol. Dan y cynnig hwn, byddai gofyn i weithredwyr gyflwyno Adroddiad Lefel Gweithgarwch sy'n cynnwys data ynghylch gweithgarwch ar gyfer y flwyddyn olaf o weithredu. Yna, byddai'r Rheoleiddwyr yn ailgyfrifo lwfansau am ddim ar sail lefelau gweithgarwch gwirioneddol, mewn modd tebyg i'r ffordd y caiff lwfansau am ddim eu cyfrifo ar gyfer y sawl sy'n ymuno â'r cynllun am y tro cyntaf. Pe bai'r lwfansau am ddim a ddosbarthwyd ar ddechrau blwyddyn y cynllun, sy'n flwyddyn olaf o weithredu i'r gweithredwr, yn uwch na'r swm hwn a ailgyfrifwyd, byddai gofyn i'r gweithredwr ddychwelyd y lwfansau a orddyrannwyd neu, pe bai dyraniad y gweithredwr wedi'i gadw yn ôl gan y Rheoleiddiwr oherwydd ymchwiliad, byddai'r hawliau i lwfansau am ddim yn cael eu haddasu.

Yn rhan o'r cynnig hwn, ymrwymodd yr Awdurdod i ystyried sefyllfaoedd lle caiff gosodiad neu is-osodiad ei gau er mwyn datgarboneiddio, er enghraifft lle caiff hen gyfleusterau a phrosesau a arferai losgi nwy a glo eu trydaneiddio. Diben hynny yw sicrhau bod y cynnig yn gyson â chymhelliant y polisi dyraniadau am ddim i ddatgarboneiddio.

**Cwestiynau**

31. **Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu'r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Un ar gyfer trin lwfansau am ddim yn y flwyddyn olaf pan fydd gweithgarwch yn terfynu'n barhaol? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb**

---

[5] Mae'r broses yn wahanol mewn achosion lle ceir oedi dros dro mewn gweithgarwch, lle mae'r rheolau ynghylch newidiadau mewn lefelau gweithgarwch yn berthnasol.
[6] Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/331, fel y mae'n rhan o gyfraith ddomestig.

**32. O ran dull gweithredu arfaethedig yr Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Un, pa risgiau y dylai'r Awdurdod eu hystyried o ran dychwelyd lwfansau sydd wedi'u gorddyrannu?**

## Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 40 o ymatebion i Gwestiwn 31. O blith yr ymatebwyr hynny, roedd 33 yn cytuno â'r cynnig (83%), roedd pump yn anghytuno â'r cynnig (13%) ac ni fynegodd dau unrhyw farn o gwbl am y cynnig (5%) ond gwnaethant fynegi barn am risgiau.

O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig, nododd chwech y byddai'n sicrhau tegwch wrth ddosbarthu dyraniadau am ddim yn achos terfyniadau parhaol, nododd chwech y byddai angen i'r cynnig sicrhau nad effeithir ar y cymhelliant i ddatgarboneiddio, nododd pedwar y byddai'n atal achosion o orddyrannu, a nododd dau y byddai'n sicrhau bod gweithgarwch yn adlewyrchu'r dyraniad am ddim sy'n ofynnol ar gyfer y risg o ddadleoli carbon. Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol hefyd: o ystyried y byddai datgarboneiddio'n cyd-fynd â bwriad polisi dyraniadau am ddim o safbwynt lliniaru'r risg o ddadleoli carbon, y byddai'r un effaith yn digwydd pe baem yn cyflwyno'r cynigion ynghylch dyraniadau dynamig ac y byddai hynny'n gwella cywirdeb. Awgrymodd dau ymatebydd y gallem gael yr un effaith drwy ei gwneud yn ofynnol i lwfansau nas defnyddiwyd gael eu hildio neu drwy gael dull pro rata fesul mis o ymdrin â dyraniadau am ddim. Ni roddodd 10 o'r ymatebwyr unrhyw resymau.

O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, cafodd y rhesymau canlynol eu nodi: y byddai'n cynyddu baich gweinyddol; ei bod yn anodd amcangyfrif y flwyddyn olaf, a fyddai'n cynyddu cymhlethdod; na fyddai'r cynnig yn caniatáu amser ar gyfer dilysu, ac na fyddai felly'n ymarferol ei gyflawni; y byddai gorddyrannu yn lliniaru sefyllfaoedd lle ceir llai o ddyraniadau yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, ac y gallai gorddyrannu fod yn ariannu datgarboneiddio.

O blith y 40 o ymatebion i Gwestiwn 31, mynegodd 24 o ymatebwyr farn am risgiau hefyd (Cwestiwn 32). Y prif risgiau a nodwyd oedd y byddai'n anodd adennill lwfansau pe bai gweithredwr wedi rhoi'r gorau i weithredu, ac y byddai angen ystyried datgarboneiddio mewn modd na fyddai'n cael effaith andwyol ar y cymhelliant i leihau allyriadau yn ystod y flwyddyn olaf o weithgarwch. Dyma'r risgiau eraill y tynnwyd sylw atynt: gallai fod yna effaith andwyol ar gywirdeb; gallai fod yna risg o danddyrannu; gellid cyhoeddi arweiniad i sicrhau bod newidiadau'n dryloyw; byddai'n cynyddu baich gweinyddol; dylai gael ei ystyried fesul safle; gallai'r gorddyraniad fod wedi'i werthu neu'i ddefnyddio i gydymffurfio; a dylid ystyried yr amserlenni ar gyfer dychwelyd gwybodaeth er mwyn lleihau risgiau ariannol i'r cwmni. At hynny, nododd dau ymatebydd y dylai'r Awdurdod ddefnyddio'r un rheolau â'r rhai ynghylch newidiadau mewn lefelau gweithgarwch yng nghyswllt dychwelyd lwfansau a orddyrannwyd, ac y gallai gweithredwyr reoli eu risgiau drwy brynu i gydymffurfio.


## Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr sy'n terfynu gweithgarwch yn barhaol mewn is-osodiad gyflwyno Adroddiad Lefel Gweithgarwch yn ystod y flwyddyn ar ôl terfynu gweithgarwch. Bydd y Rheoleiddwyr yn ailgyfrifo lwfansau am ddim ar sail lefelau gweithgarwch gwirioneddol y flwyddyn olaf. Pe bai'r lwfansau am ddim a ddosbarthwyd ar ddechrau blwyddyn olaf y gweithredwr o weithgarwch yn uwch na'r swm hwn a ailgyfrifwyd, byddai'n ofynnol i'r gweithredwr ddychwelyd lwfansau a orddyrannwyd neu, mewn achosion lle'r oedd eu dyraniad wedi'i gadw'n ôl gan y Rheoleiddiwr, byddai'r hawliau i lwfansau am ddim yn cael eu haddasu.

Mae'r dull hwn o weithredu'n debyg i'r un a fabwysiadwyd gan System Masnachu Allyriadau'r UE. Ar 4 Ebrill 2024 cadarnhaodd y Comisiwn Reoliad Dirprwyedig wedi'i ddiweddaru y Comisiwn ynghylch dyraniadau am ddim, gan ddatgan ei fwriad i osgoi dyraniad am ddim digyfiawnhad i osodiadau nad ydynt yn gweithredu mwyach, a gan nodi na ddylai unrhyw ddyraniad am ddim gael ei roi ar gyfer y gyfran honno o'r flwyddyn galendr ar ôl y diwrnod y caiff gweithrediadau eu terfynu. Yn ogystal, er mwyn hwyluso cysondeb rhwng addasu dyraniadau a therfynu gweithrediadau, dylai lwfansau gormodol na chawsant eu dychwelyd yn briodol gan weithredwr gael eu tynnu allan o'r dyraniad am ddim i'r gweithredwr dan sylw.[7]

Mewn rhai achosion, fel y nodwyd gan yr Awdurdod yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2023 ac fel y nodwyd yn yr ymatebion gan randdeiliaid, gall terfyniadau ddigwydd am resymau'n ymwneud â datgarboneiddio. Bwriad yr Awdurdod wrth ddiweddaru dyraniadau am ddim ar gyfer blwyddyn olaf gweithredwr o weithredu yw sicrhau nad oes gorddyrannu sylweddol yn digwydd os nad oes angen lwfansau mwyach i liniaru risg o ddadleoli carbon. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn bwriadu effeithio'n andwyol ar y cymhelliant i ddatgarboneiddio mewn is-osodiad gweithredwr, a allai gael ei ystyried yn derfyniad parhaol.

Dan y rheolau presennol ynghylch dyraniadau am ddim, mae gan weithredwyr hawl i gadw dyraniadau am ddim dros ben a gafwyd yn ystod cyfnod dyrannu, os ydynt wedi datgarboneiddio. Mae hynny'n cynnal cymhelliant Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i ddatgarboneiddio, oherwydd gall gweithredwyr wedyn werthu'r lwfansau hynny ar y farchnad eilaidd. Caiff y broses hon ei disgrifio yn y diagram isod.





**Ffigur 1 Diagram sy'n dangos sut y mae rheolau ynghylch dyraniadau am ddim yn cymell datgarboneiddio**

Pe bai is-osodiad yn terfynu gweithgarwch yn barhaol er mwyn gosod seilwaith newydd a fyddai'n cael ei drin dan feincnod newydd, byddai'r rheolau newydd a fyddai'n cael eu cyflwyno

[7] Mae Erthygl 26 Rheoliad Dirprwyedig 2019/331 yr UE ynghylch System Masnachu Allyriadau'r UE, am reolau pontio ledled yr Undeb ar gyfer cysoni prosesau dyrannu lwfansau allyriadau am ddim, wedi'i ddiweddaru erbyn hyn i ddatgan fel a ganlyn: *"Where an installation has ceased operations, the Member State concerned shall not issue emission allowances to that installation for the remainder of the calendar year following the day of cessation of operations. Such adjustments shall be made on a pro-rata basis."* https://eur-lex.europa.eu/eli/2024/873/oj

gan yr Awdurdod yn mynnu bod y gweithredwr yn dychwelyd lwfansau a orddyrannwyd yn ystod y flwyddyn olaf o weithredu. Caiff y broses hon ei disgrifio yn y diagram isod.




**Ffigur 2 Diagram sy'n dangos sut y gallai rheolau newydd ynghylch dyraniadau am ddim gael effaith andwyol ar y cymhelliant i ddatgarboneiddio**

Er nad yw'r prosesau a ddisgrifir yn y diagramau esboniadol uchod yn cynrychioli pob sefyllfa – gan fod yna amrywiadau yn y modd y gall lefelau dyraniadau am ddim fod yn cymharu ag allyriadau, yn dibynnu ar berfformiad ar sail meincnod – mae'r cymhelliant yn bodoli o hyd mewn egwyddor. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gallai hynny wanhau'r cymhelliant i ddatgarboneiddio, yn enwedig wrth symud i feincnod mwy llym. Felly, bydd yr Awdurdod yn caniatáu i weithredwyr gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos mai datgarboneiddio yw diben terfynu gweithgarwch yn barhaol yn eu his-osodiad meincnodau cynnyrch. Dylai'r dystiolaeth honno gael ei chyflwyno ochr yn ochr â'r Adroddiad Lefel Gweithgarwch yn ystod y flwyddyn ar ôl terfynu gweithgarwch, a rhaid iddi fodloni'r meini prawf canlynol:

- Mae seilwaith newydd wedi'i ddatgarboneiddio yn cael ei osod ar y safle i gynhyrchu'r un cynnyrch. Dylid darparu'r dyddiad ar gyfer gosod seilwaith newydd hefyd yn ogystal â thystiolaeth bod y gwaith hwn i osod y seilwaith wedi'i gymeradwyo. Gallai hynny fod ar ffurf penderfyniad buddsoddi terfynol, caniatâd cynllunio neu achos busnes terfynol, a bydd arweiniad pellach yn cael ei gyhoeddi ynghylch hynny maes o law ar gov.uk,
- Bydd y seilwaith newydd yn arwain at broses gynhyrchu fwy effeithlon (sy'n llai dwys o ran carbon) (a gaiff ei thrin dan feincnod newydd dan y rheolau ynghylch dyraniadau am ddim),
- Ni fydd yr allbwn cynhyrchu ar ôl ailddechrau yn llawer llai.

Os bydd y cais hwn yn llwyddiannus wedi iddo gael ei ystyried gan yr Awdurdod, bydd y gweithredwr yn cael gwybod am y penderfyniad a bydd yn cael ei esemptio o'r rheolau newydd, a fydd yn caniatáu iddo gadw ei holl ddyraniadau am ddim o ran y flwyddyn olaf ar gyfer yr is-osodiad sydd wedi terfynu ei weithrediadau'n barhaol (gyda'r dyraniadau hynny wedi'u haddasu i roi cyfrif am lefelau gweithgarwch y flwyddyn flaenorol).


Os bydd yr Awdurdod yn penderfynu nad yw gweithredwr yn ailddechrau gweithgarwch wedi’i ddatgarboneiddio yn unol â’r dystiolaeth a ddarparwyd, a arweiniodd at ei esemptio o’r rheol newydd, bydd y Rheoleiddiwr yn cyflwyno hysbysiad bod yn rhaid dychwelyd y lwfansau a orddyrannwyd ar gyfer y flwyddyn olaf o weithredu. Os bu oedi wrth osod y seilwaith newydd wedi’i ddatgarboneiddio, caiff y gweithredwr wneud cais i estyn yr esemptiad hwn. Fodd bynnag, dylai hynny fod o leiaf 6 mis cyn y dyddiad a gytunwyd, a dylid darparu tystiolaeth i nodi pam y mae’r oedi wedi digwydd, pryd y bydd y seilwaith newydd yn ei le a phryd y bydd gweithgarwch yn ailddechrau. Os na chaiff y wybodaeth hon ei darparu gyda digon o rybudd, bydd y corff rheoleiddio priodol yn cyflwyno hysbysiad bod yn rhaid dychwelyd y lwfansau a orddyrannwyd ar gyfer y flwyddyn olaf o weithredu.

Bydd yr hysbysiad hwn bod yn rhaid dychwelyd lwfansau yn cael ei gyflwyno hefyd os na fydd gweithgarwch yn ailddechrau o fewn y cyfnod a gytunwyd.

Pe bai is-osodiad meincnodau cynnyrch yn terfynu gweithgarwch er mwyn datgarboneiddio a gaiff ei drin dan y meincnodau wrth gefn, cyhyd â’i bod yn fwriad ailddechrau gweithrediadau yn yr is-osodiad byddai hynny’n cael ei ystyried yn derfyniad dros dro a byddai’r rheolau arferol ynghylch newidiadau mewn lefelau gweithgarwch yn berthnasol, a fyddai’n cynnwys ystyried effeithlonrwydd ynni’n unol ag Erthygl 6 y Rheoliad ynghylch Newidiadau mewn Lefelau Gweithgarwch. Mewn amgylchiad o’r fath, nid oes unrhyw angen i weithredwr ddarparu tystiolaeth fel y disgrifir uchod wrth gyflwyno ei Adroddiad Lefel Gweithgarwch yn ystod y flwyddyn ar ôl terfyniad dros dro is-osodiad, a gaiff ei drin dan feincnod wrth gefn, oherwydd mae’r rheolau arferol yn golygu y caiff yr is-osodiad gadw ei ddyraniad yn ystod y flwyddyn y cafodd gweithrediadau eu gohirio.

Bydd yr esemptiad hwn o’r rheolau newydd yn galluogi gweithredwyr sy’n rhoi’r gorau yn barhaol i weithredu is-osodiad meincnodau cynnyrch, er mwyn datgarboneiddio, i elwa o’r dyraniadau am ddim sydd dros ben yn ystod eu blwyddyn olaf o weithredu. Mae hynny’n cyd-fynd â’r bwriad polisi a ddisgrifir uchod ac yn cyd-fynd ag amcan Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU, sef cymell datgarboneiddio.

Mae’r llifsiart isod yn disgrifio sut y bydd y broses hon yn gweithio ar gyfer is-osodiadau meincnodau cynnyrch.




**Ffigur 3 Llifsiart sy’n disgrifio’r broses ar gyfer trin terfyniad mewn is-osodiad**

Mae’r Awdurdod yn bwriadu rhoi’r newidiadau hyn ar waith yn neddfwriaeth Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn 2025, a byddant yn berthnasol i unrhyw derfyniadau sy’n digwydd ar ôl y dyddiad y daw deddfwriaeth newydd i rym.

# Newid Technegol Dau: Diweddaru’r diffiniad o derfyniadau parhaol

Cynigiodd ymgynghoriad mis Rhagfyr 2023 ynghylch yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim ddiweddaru’r diffiniad o derfynu gweithgarwch yn barhaol er mwyn darparu mwy o eglurder mewn senarios lle mae terfynu gweithgarwch dros dro yn troi’n derfynu parhaol.

## Crynodeb o’r cynnig

Dan y rheolau presennol, mae gosodiad wedi rhoi’r gorau i weithredu os nad yw gweithgarwch a reoleiddir yn cael ei gyflawni mwyach mewn gosodiad ac os yw’n dechnegol amhosibl ailddechrau gweithredu. Mae is-osodiad wedi rhoi’r gorau i weithredu os nad yw’r is-osodiad yn gweithredu mwyach ac os yw’n dechnegol amhosibl ailddechrau gweithredu. Gall y diffiniad hwn arwain at anawsterau, oherwydd gellir dehongli “yn dechnegol amhosibl ailddechrau gweithredu” mewn amryw ffyrdd.

Cynigiodd yr Awdurdod ddiweddaru’r diffiniad o derfyniad parhaol er mwyn dileu’r cyfeiriad at "yn dechnegol amhosibl ailddechrau gweithredu " a chyfeirio’n hytrach at derfynu gweithgarwch yn barhaol.

Roedd yr Awdurdod hefyd yn bwriadu darparu rhagor o eglurder mewn senarios lle mae terfyniadau gweithgarwch dros dro yn troi’n derfyniadau parhaol, yn enwedig o ran y dyddiad terfynu’n barhaol, er mwyn penderfynu ar yr hawl i ddyraniadau am ddim yn unol â Newid

Technegol Un. Roedd yr Awdurdod yn cynnig, os nad yw gweithgaredd a reoleiddir yn cael ei gyflawni mwyach mewn is-osodiad, y bydd y terfyniad yn cael ei drin fel terfyniad parhaol oni bai bod y gweithredwr yn dangos i'r Rheoleiddiwr bod:

- y gosodiad/is-osodiad yn dechnegol yn gallu ailddechrau cyflawni gweithgareddau a reoleiddir, heb wneud newidiadau ffisegol, neu'i fod yn bwriadu adfer gallu technegol y gosodiad/is-osodiad er mwyn ailddechrau cyflawni gweithgareddau a reoleiddir;
- a'i fod yn bwriadu ailddechrau gweithgareddau a reoleiddir.

Os nad yw'r gweithredwr yn dangos yr uchod, dyddiad y gosodiad/is-osodiad ar gyfer rhoi'r gorau i weithredu yw'r dyddiad y mae'r gweithgaredd a reoleiddir yn gorffen cael ei gyflawni. Os yw'r gweithredwr yn dangos yr uchod ar adeg benodol ac yn bwriadu ailddechrau gweithgareddau ond nad yw'n gwneud hynny, dyddiad y gosodiad/is-osodiad ar gyfer rhoi'r gorau i weithredu yw'r dyddiad y mae'r gweithredwr yn atal cyflawni'r gweithgareddau a reoleiddir yn y gosodiad/is-osodiad.

## Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 27 o ymatebion i Gwestiwn 33. Roedd 18 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig (67%) ac roedd 9 o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig (33%) ond ni wnaethant roi rheswm. O blith yr 18 o ymatebwyr a oedd yn cytuno, ni roddodd 15 unrhyw resymau dros eu barn. Nododd un fod y newidiadau'n synhwyrol gan y byddent yn cael gwared ar amwysedd, ond nododd un nad oedd dim eglurder ynghylch sut y byddai is-osodiadau'n cael eu trin ac ychwanegodd un arall y dylai'r diffiniad gynnwys cyfnod lleiaf posibl ar ôl terfynu gweithgarwch dros dro.

## Ymateb yr Awdurdod

Bydd yr Awdurdod yn gweithredu'r newid a gynigir i ddeddfwriaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Bydd y diffiniad wedi'i ddiweddaru o derfyniadau parhaol yn darparu mwy o eglurder mewn senarios lle mae achosion o derfynu gweithgarwch dros dro yn troi'n derfynu parhaol, drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gyflwyno tystiolaeth o derfyniadau i'w corff rheoleiddio perthnasol er mwyn penderfynu ar natur eu terfyniad.

# Atodiad Dadansoddol

Mae'r atodiad hwn yn amlinellu'r dadansoddiad sy'n cefnogi'r opsiynau polisi o ran rheolau ynghylch terfyniadau parhaol ar gyfer dyraniadau am ddim. Mae'n ymdrin â'r ddau newid technegol fel y maent wedi'u hamlinellu yn yr Ymateb hwn gan yr Awdurdod. Mae ansawdd y dadansoddiad a gyflwynir yma wedi'i sicrhau ac mae'r dadansoddiad wedi cael cymeradwyaeth ddadansoddol Adrannol.

Rydym yn asesu'r newidiadau a gynigir o'u cymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol, sef parhau â'r rheolau presennol sy'n golygu bod lwfansau am ddim yn cael eu dosbarthu'n llawn yn ystod y flwyddyn olaf pan gaeodd gosodiad, gyda dim yn cael eu dosbarthu wedyn; ac yn asesu'r diffiniad presennol o 'derfyniad parhaol'. Fel y nodwyd uchod, gall hynny arwain at orddyrannu dyraniadau am ddim, sy'n golygu nad yw'r cymorth hwn yn cael ei dargedu at y mannau lle mae ei angen i liniaru'r risg o ddadleoli carbon.

Mae'r ymgynghoriad ac Ymateb yr Awdurdod yn cynnig newidiadau i'r rheolau hyn ar gyfer terfyniadau parhaol er mwyn sicrhau nad yw gweithredwyr yn cael blwyddyn lawn o ddyraniadau am ddim yn ystod eu blwyddyn olaf o weithredu, ac yn lle hynny maent yn cynnig pennu dyraniadau am ddim sy'n adlewyrchu gweithgarwch.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnig diweddaru'r diffiniad o derfyniad parhaol er mwyn cael gwared ar y cyfeiriad at "yn dechnegol amhosibl ailddechrau gweithredu" ac, yn lle hynny, cyfeirio at derfynu gweithgarwch yn barhaol.

Yn gyffredinol, newidiadau technegol yw'r rhain i'r modd y caiff rheolau ynghylch dyraniadau am ddim eu gweithredu, sy'n effeithio ar nifer fach yn unig o osodiadau yn hytrach nag ar y bwriad neu ar y defnydd ehangach o'r Fethodoleg Dyraniadau am Ddim. Felly, rydym yn bwriadu asesu opsiynau â sylfaen dystiolaeth gymesur, gan ddefnyddio tystiolaeth feintiol ac ansoddol gyd-destunol i ystyried effaith yr opsiynau. Mae'r atodiad hwn yn amlinellu'r sylfaen dystiolaeth gymesur, gan dynnu sylw at y prif ystyriaethau dadansoddol, er mwyn llunio ac ategu penderfyniadau. Mae'r dystiolaeth honno'n cynnwys:

- Tystiolaeth feintiol sy'n cynnwys y ffigurau diweddaraf sydd ar gael gan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU ynghylch cyfanswm y terfyniadau, a'r allyriadau a'r dyraniadau am ddim cyfatebol yn ystod y blynyddoedd pan gaeodd gosodiadau
- Disgrifiad technegol o newidiadau, sy'n amlinellu sut y caiff gwahanol opsiynau eu gweithredu a sut y gallai'r rheini effeithio ar newidynnau allweddol
- Tystiolaeth ansoddol: ystyried pa mor dda y mae opsiynau'n bodloni amcanion polisi, yn ogystal â'r effeithiau posibl, yr effeithiau ar ddefnyddwyr, y risgiau a'r cafeatau

## Tystiolaeth feintiol: ffigurau ynghylch nifer y gosodiadau a gaeodd

Mae'r atodiad hwn yn dadansoddi ffigurau ynghylch gosodiadau a gaeodd yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, o setiau data ynghylch cydymffurfio. Er na chaiff data ar lefel safleoedd ei gyflwyno, mae ffigurau cyfanredol yn dangos maint posibl effeithiau.

Yn 2022, caeodd 16 o osodiadau yn ystod blwyddyn y cynllun, a arweiniodd at gyflwyno rheolau ynghylch terfyniadau parhaol. Cafodd y safleoedd hynny gyfanswm o oddeutu 800,000 o lwfansau’r DU o ddyraniadau am ddim.[8] Mae hynny’n gyfwerth ag oddeutu 2% o’r holl ddyraniadau am ddim a roddwyd yn 2022 ac roedd yn effeithio ar 2% yn fras o’r safleoedd. O ran y safleoedd hynny, roedd yr allyriadau a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn pan gaeodd gosodiadau yn cyfateb i gyfanswm o 150,000 (o dunelli o garbon deuocsid a’i gyfatebol), sydd gryn dipyn yn llai na chyfanswm y dyraniadau am ddim a roddwyd ac sy’n cyfateb i oddeutu 0.1% o gyfanswm allyriadau’r Cynllun Masnachu Allyriadau.

Dylid nodi bod amrywiad sylweddol rhwng y gwahaniaeth net rhwng dyraniadau am ddim ac allyriadau ar gyfer safleoedd unigol: yn fras, roedd y dyraniadau am ddim a gafodd un o bob tri safle yn fwy na’u hallyriadau blynyddol, ac roedd y dyraniadau am ddim a gafodd dau o bob tri safle yn llai na’u hallyriadau blynyddol. Un peth a effeithiodd ar y canlyniadau unigol hyn oedd cyflymder rhoi dyraniadau am ddim i safle, drwy’r Fethodoleg Dyraniadau am Ddim, ac amseru cau gosodiad. Roedd y gosodiadau a gaeodd yn gynharach yn gysylltiedig â lefelau is o allyriadau, ond roeddent wedi parhau i gael yr holl ddyraniadau am ddim ar gyfer blwyddyn y cynllun dan y rheolau presennol.

Yn 2023, caeodd 10 o osodiadau yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU, ac roedd yr achosion hynny’n gyfwerth â chyfran lai o lawer o allyriadau a dyraniadau am ddim: cafodd safleoedd â therfyniadau parhaol gyfanswm o 10,000 o lwfansau’r DU o ddyraniadau am ddim, a chofnododd safleoedd o’r fath gyfanswm o 60,000 o allyriadau, sy’n llai na 0.1% o gyfanswm y dyraniadau am ddim a’r allyriadau yn eu tro.

Yn gyffredinol, mae tystiolaeth feintiol gyfanredol yn nodi bod terfyniadau parhaol yn effeithio ar is-set fach o osodiadau ac ar gyfran fach o ddyraniadau am ddim. Felly, maent yn annhebygol o gael effaith fawr ar baramedrau’r cynllun, megis y graddau y mae dyraniadau am ddim ar gael a’r tebygolrwydd yr eir y tu hwnt i gap y diwydiant – er y gallai effaith o’r fath fod yn bosibl yn achos gosodiadau mawr sy’n cau.

Fodd bynnag, mae’r amrywiad mawr mewn allyriadau o’u cymharu â’r dyraniadau am ddim a roddir, ar sail gyfanredol ac ar sail safleoedd unigol, ac yn enwedig yn 2022, yn dangos bod tegwch efallai yn broblem fawr ac nad yw dyraniadau am ddim yn cael eu targedu at y mannau lle mae eu hangen i liniaru dadleoli carbon. Mae’r rheolau presennol yn gadael llwybr lle gall rhai safleoedd gael llawer mwy o ddyraniadau am ddim na’u hallyriadau, sy’n ganlyniad anfwriadol. Felly, caiff y newidiadau a gynigir i derfyniadau parhaol, a amlinellir yn yr Ymateb hwn gan yr Awdurdod, eu cefnogi gan y dystiolaeth feintiol.

# Disgrifiadau technegol o’r opsiynau

Mae’r adran hon yn amlinellu’n gryno ddisgrifiad technegol o’r newidiadau a gynigir. Nod hynny yw amlinellu dichonolrwydd technegol yr opsiynau a gynigir, costau posibl eu gweithredu neu’r heriau o ran eu gweithredu, ac unrhyw systemau posibl ar gyfer effaith. Mae’n arfarnu’r opsiynau ac yn llywio’r asesiad ansoddol isod.

## Newid technegol un: trin terfyniadau parhaol

Mae’r cynnig cyntaf yn ceisio newid y rheolau ynghylch terfyniadau parhaol fel bod yr hawl i ddyraniadau am ddim yn ystod y flwyddyn olaf o weithgarwch yn cael ei seilio ar lefelau

[8] I’r 10,000 agosaf, fel sy’n wir am yr holl ffigurau a ddyfynnir yn yr adran hon.

gweithgarwch yn ystod y flwyddyn honno, yn hytrach na bod yr holl ddyraniadau am ddim yn cael eu cynnig i'r cyfranogwr.

Fel y nodwyd, gallai addasiad o'r fath gael ei wneud ar ôl neu cyn rhoi'r dyraniad i weithredwr unigol. O ran dychwelyd lwfansau ar ôl iddynt gael eu dyrannu, y cynnig yw bod y dyraniad am ddim yn cael ei ddychwelyd gan y gweithredwr. Dylai hynny fod yn ymarferol ac yn bosibl, cyhyd â bod y gweithredwr yn dal i fod yn berchen ar y lwfansau. O gofio mai'r unig bryd y gellir cyfiawnhau dychwelyd lwfansau yw pan fydd lefelau gweithgarwch – ac allyriadau, felly – yn is na'r disgwyl, dylai gweithredwyr fod yn medru dychwelyd y lwfansau hyn, naill ai drwy lwfansau dros ben sydd islaw'r allyriadau neu o'r farchnad. Dylai hynny fod yn ymarferol os caiff gwybodaeth am y disgwyliad hwn ei rhannu ymlaen llaw â'r safleoedd yr effeithir arnynt.

O ran addasu cyn dyrannu, dylai addasiad o'r fath fod yn ymarferol, gyda'r Rheoleiddwyr yn addasu'r dyraniad ar sail lefelau gweithgarwch yn ystod y flwyddyn. O gofio bod Adroddiadau Lefel Gweithgarwch blynyddol yn cael eu casglu'n barod a'u dadansoddi gan y Rheoleiddwyr, dylai newid o'r fath fod yn ymarferol o safbwynt gweithredol. Er y gallai cost weinyddol fach fod ynghlwm wrth addasu, mae'r ffaith mai nifer fach o osodiadau sy'n cau yn golygu y dylai'r gost honno fod yn ddibwys ac yn ymarferol. Yn wir, er i ymatebwyr nodi y gall fod yn anodd amcangyfrif Adroddiad Lefel Gweithgarwch yn ystod y flwyddyn olaf, mae'n parhau yn un o'r pethau sy'n ofynnol gan weithredwyr a reoleiddir gan y Cynllun Masnachu Allyriadau; o gofio bod yn rhaid i'r Adroddiad Lefel Gweithgarwch hwn gael ei gyflwyno yn ystod unrhyw flwyddyn, nid ystyrir bod y cynnig hwn yn ychwanegu baich gweinyddol i'r gweithredwyr yr effeithir arnynt.

Yn ymarferol, byddai'r addasiad yn gofyn am ailgyfrifo'r dyraniad am ddim rhagarweiniol. Byddai'r addasiad yn cael ei wneud drwy'r elfen lefel gweithgarwch, ac ni fyddai angen adolygu elfennau eraill y cyfrifiad – y Meincnod na'r Ffactor Agored i Ddadleoli Carbon (gweler Ffigur 1 yn gynharach).

Fel yr amlinellwyd, ceir eithriadau i'r newid a gynigir, lle bydd yr Awdurdod yn ystyried sefyllfaoedd pan ellid rhoi'r dyraniad am ddim cyfan yn ystod y flwyddyn olaf o weithredu at ddibenion datgarboneiddio. Byddai hynny'n digwydd fesul achos, ac mae'r cynnig uchod yn amlinellu'r broses a'r meini prawf er mwyn i weithredwyr gyflwyno tystiolaeth ar gyfer yr esemptiad hwn o'r rheolau newydd.

Yn gyffredinol, ystyrir ei bod yn ymarferol gweithredu'r opsiwn hwn o fewn rheolau a gofynion presennol y Fethodoleg Dyraniadau am Ddim, heb fod unrhyw broblemau mawr wedi'u nodi a allai arwain at gostau sylweddol neu heriau o ran gweithredu.

## Newid technegol dau: diweddaru'r diffiniad o derfyniadau parhaol

Mae'r ail gynnig yn ceisio diweddaru'r diffiniad o derfyniad parhaol. Bydd hynny'n cael gwared ar y gofyniad i weithgarwch fodloni'r statws 'yn dechnegol amhosibl ailddechrau gweithredu'.

Mae hynny yn symleiddio'r meini prawf presennol ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd. Mae'r cynnig uchod yn rhoi manylion clir am y diffiniad newydd, am y meini prawf ar gyfer terfyniad parhaol, ac am yr adegau pan geir eithriadau. Mae hwn yn newid diffiniadol, mae'n ymarferol ei weithredu, ac ni chaiff unrhyw risgiau o bwys eu nodi yng nghyswllt y polisi. Mae'r adran hon yn cefnogi'r safbwynt terfynol ar newid technegol dau.

# Asesiad ansoddol o'r gwahanol opsiynau

Rydym yn bwriadu asesu'r newidiadau hyn yn ansoddol, o safbwynt pa mor dda y gallent fodloni amcanion polisi ac effeithio ar ganlyniadau allweddol. Yn bennaf, rydym yn dadansoddi'r newidiadau polisi a gynigir o ran eu heffaith ar y canlynol:

1. Yr egwyddorion trosfwaol ar gyfer y newidiadau polisi, y graddau y maent yn cyd-fynd â'r adolygiad o ddyraniadau am ddim a Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Yn benodol, fel y nodwyd yn yr adolygiad, mae newidiadau i'r polisi dyraniadau am ddim yn ceisio sicrhau bod dyraniadau am ddim 'yn mynd ati'n effeithiol i liniaru'r risg o ddadleoli carbon' ac y bydd polisi dyraniadau am ddim 'yn cyd-fynd â'n targedau ehangach o ran yr hinsawdd',[9] ac mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi mai bwriad y newidiadau hyn yw mynd i'r afael â'r risg o orddyrannu sylweddol pan nad oes angen lwfansau mwyach i liniaru dadleoli carbon.

2. Dichonolrwydd technegol a gweithredol yn y broses dyraniadau am ddim a Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

3. Effeithiau allweddol eraill opsiynau, ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl.

Yn gyffredinol, mae gan y ddau newid sail resymegol gadarn, o safbwynt osgoi gorddyrannu lwfansau i weithgaredd sy'n dod i ben pan fydd safle yn cau. Mae'r newidiadau yn gyson â'r Cynllun Masnachu Allyriadau ac amcanion dyraniadau am ddim ac yn eu cefnogi, ac maent yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r risg bod gorddyrannu sylweddol yn digwydd pan nad oes angen lwfansau i liniaru dadleoli carbon. Yn wir, mae'n bosibl bod manteision yn perthyn i'r newidiadau o ran eu bod yn cynnig dyraniadau am ddim mewn modd sy'n gymesur â gweithgarwch, yn hytrach na'r posibilrwydd bod lwfansau'n cael eu gorddyrannu i safleoedd sydd wedi cau.

## Newid technegol un: trin terfyniadau parhaol

O safbwynt bodloni amcanion a nodwyd, mae'r opsiwn hwn yn cynnig system glir, ymarferol o safbwynt gweithredol i sicrhau nad yw dyraniad am ddim yn ystod y flwyddyn olaf o weithgarwch gryn dipyn yn fwy na'r dyraniad am ddim sy'n ofynnol. Yn bennaf, rydym yn ystyried bod y newid hwn yn mynd i'r afael â'r risg o orddyrannu sylweddol pan nad oes angen lwfansau mwyach i liniaru dadleoli carbon, a'i fod yn bodloni'r prif amcan hwn.

O safbwynt lliniaru dadleoli carbon, gellir ystyried nad yw'r sefyllfa wrthffeithiol (sef y rheolau presennol) yn gwneud digon i dargedu cymorth ym maes dadleoli carbon drwy ddyraniadau am ddim mewn rhai achosion lle mae safleoedd yn cau, lle caiff lwfansau diangen eu rhoi i safleoedd sydd wedi cau. Mae hwn yn un o ganlyniadau anfwriadol y Fethodoleg Dyraniadau am Ddim a gellir cyfiawnhau newid y rheolau. Mae'r newid i'r rheolau yn golygu bod dyraniadau am ddim yn cael eu targedu'n fwy cywir, a'u bod yn cael eu rhoi mewn modd sy'n gymesur â gweithgarwch, yn unol â bwriad y Fethodoleg Dyraniadau am Ddim. Felly, dylai'r newid hwn gefnogi amcanion arfaethedig lleihau allyriadau drwy Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

O safbwynt cymorth i ddatgarboneiddio, ceir enghreifftiau pan allai dyraniadau am ddim roi cymorth i osodiadau fuddsoddi'n weithredol mewn datgarboneiddio. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd yr Awdurdod am gadw'r rheolau presennol sy'n golygu bod yr holl ddyraniadau

[9] Caiff yr egwyddorion a nodwyd eu hamlinellu yma: [Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: adolygiad o ddyraniadau am ddim (Rhagfyr 2023)]

am ddim yn cael eu rhoi yn ystod y flwyddyn olaf o weithredu. Caiff rheolau clir eu darparu ar gyfer y senario hwn. Felly, mae'r rheol hon yn cadw'r hyblygrwydd i ddyrannu'r holl ddyraniadau am ddim yn ôl y disgwyl i gynorthwyo datgarboneiddio, ond yn mynd i'r afael â man gwan mewn sefyllfaoedd eraill.

O safbwynt effaith dechnegol a gweithredol, fel y nodwyd uchod ystyrir bod y newid hwn yn syml ac yn ymarferol. Gallai fod yna gost i'r Rheoleiddwyr o safbwynt ymgyfarwyddo a gweinyddu, wrth fabwysiadu'r rheolau a gweithredu'r newidiadau. Fodd bynnag, o gofio'r gofynion sydd ar waith yn barod o ran cyflwyno adroddiadau (Adroddiadau Lefel Gweithgarwch blynyddol) a chyfrifo'n weithredol newidiadau i lefelau gweithgarwch o gymharu â Lefelau Gweithgarwch Hanesyddol, ni ddisgwylir y bydd y newid yn arwain at gynnydd sylweddol mewn costau gweinyddol o gymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol.

O safbwynt effeithiau eraill, nid ydym yn disgwyl effeithiau sylweddol i farchnad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ac nid ydym yn nodi unrhyw risgiau anfwriadol amlwg ond rydym yn mynd i'r afael â rhai o risgiau anfwriadol y rheolau presennol. Fel y nodwyd, yn hanesyddol mae terfyniadau parhaol wedi effeithio ar ganran fach o weithredwyr, dyraniadau am ddim ac allyriadau. Felly, ni ddylai dyraniadau am ddim a allai fod wedi'u gorddyrannu gael effaith fawr ar y farchnad, ond mae'n bosibl bod y rheolau presennol yn galluogi cyflenwadau sydyn o lwfansau os yw safleoedd sy'n cau yn gwerthu llawer o lwfansau ar y farchnad. O gofio bod mwyafrif pryniannau marchnad eilaidd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael eu gwneud gan frocer neu gyfryngwr arall, yn hytrach na'u bod yn digwydd yn uniongyrchol rhwng gweithredwyr, ystyrir mai lefel isel o debygolrwydd sy'n perthyn i'r risg hon. Er hynny, os oes unrhyw risgiau posibl i'r farchnad yng nghyswllt dull gweithredu'r sefyllfa wrthffeithiol, dylai'r newid hwn leihau'r risgiau hynny'n weithredol drwy leihau'r symiau mawr o lwfansau dros ben y gallai gweithredwyr sy'n cau eu gwerthu i'r farchnad.

Yn wir, mae'r nifer fach o ddyraniadau am ddim o derfyniadau parhaol yn golygu eu bod yn annhebygol o gynyddu'n sylweddol y tebygolrwydd y gallai dyraniad am ddim rhagarweiniol fod yn fwy na chap y diwydiant. Er hynny, disgwylir y bydd y cynnig hwn yn gostwng yn gyffredinol gyfanswm y dyraniad am ddim a roddir, ac y bydd y risg hon felly'n cael ei lleihau.

O safbwynt effeithiau posibl y newid hwn ar ddefnyddwyr, nid ydym yn disgwyl effeithiau mawr ar filiau cartrefi nac ar ddefnyddwyr. Fel y nodwyd, mae dyraniadau am ddim sy'n gysylltiedig â therfyniadau parhaol wedi bod yn cyfateb i gyfran fach iawn (0.1% - 2%) o gyfanswm y dyraniadau am ddim yn ystod blynyddoedd diweddar y cynllun. Yn wir, fel y nodwyd uchod, nid ydym yn disgwyl effeithiau i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU, nac i bris lwfansau'r DU, felly ni ddisgwylir effeithiau ar ddefnyddwyr. At hynny, byddai'r newidiadau yn berthnasol i weithredwyr sy'n cau, felly ni ddisgwylir y byddant yn effeithio'n sylweddol ar weithredwyr sy'n parhau ar agor.

Yn gyffredinol, mae'r asesiad ansoddol yn dangos bod y newid polisi hwn yn ymarferol o safbwynt technegol, a'i fod yn debygol o wella'r modd y caiff dyraniadau am ddim eu targedu ac yn debygol o leihau'r risg o orddyrannu yn achos terfyniadau parhaol, o gymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol. Fel y nodwyd uchod, ni ddisgwylir i'r polisi hwn gynyddu costau nac achosi heriau o ran gweithredu o gymharu â rheolau a gofynion presennol y rheolau ynghylch dyraniadau am ddim. Yn olaf, mae effeithiau neu risgiau ehangach o ran y farchnad yn debygol o gael eu lleihau o ganlyniad i'r newid hwn o gymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol.

## Newid technegol dau: diweddaru'r diffiniad o derfyniadau parhaol

Fel y nodwyd uchod, newid diffiniadol bach yw'r cynnig hwn, ac ni ddisgwylir iddo arwain at newidiadau mawr i'r farchnad. Disgwylir i'r newid gyd-fynd â'r amcanion a'r bwriadau a nodwyd

ar gyfer dyraniadau am ddim er mwyn mynd i'r afael â'r risg o orddyrannu, drwy nodi'n gywir pryd y mae safle wedi cau mewn gwirionedd, ac mae'n amlinellu esemptiadau er mwyn osgoi'r risg o roi gweithredwyr sy'n cau yn y categori anghywir. Mae'n ymarferol o safbwynt technegol, ac o safbwynt gweithredol gellir ei roi ar waith yn y Cynllun Masnachu Allyriadau, ac nid ydym yn rhagweld y bydd y newid hwn yn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol i'r farchnad nac unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Mae'r Ymateb hwn gan yr Awdurdod ar gael yma: www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review

Os oes arnoch angen fersiwn o'r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch ebost i alt.formats@energysecurity.gov.uk. Dylech ddweud wrthym pa fformat y mae arnoch ei angen. Bydd yn ein helpu os cawn wybod gennych pa dechnoleg gynorthwyol yr ydych yn ei defnyddio.